# Fframwaith Rhifedd

## Blwyddyn 4

### Adnabod prosesau a chysylltiadau

- trosglwyddo sgiliau mathemategol i amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd bob dydd
- adnabod y camau a'r wybodaeth briodol sydd eu hangen er mwyn cwblhau'r dasg neu gyrraedd datrysiad
- dewis mathemateg a thechneg briodol i'w defnyddio
- dewis a defnyddio offer ac unedau mesur addas
- dewis strategaeth feddyliol neu ysgrifenedig priodol a gwybod pryd mae'n briodol defnyddio cyfrifiannell
- amcangyfrif a delweddu maint wrth fesur a defnyddio'r unedau cywir

### Cynrychioli a chyfathrebu

- egluro canlyniadau a gweithdrefnau'n glir drwy ddefnyddio ieithwedd fathemategol
- mireinio dulliau anffurfiol o gofnodi cyfrifiadau ysgrifenedig, gan symud i ddulliau cyfrifo ffurfiol pan fydd wedi datblygu digon i wneud hynny
- defnyddio nodiant, symbolau ac unedau mesur priodol
- dewis a llunio siartiau, diagramau a graffiau priodol a chanddynt raddfeydd addas

### Adolygu

- dewis o blith ystod gynyddol o strategaethau gwirio er mwyn penderfynu a yw atebion yn rhesymol
- dehongli atebion yng nghyd-destun y broblem ac ystyried a yw'r atebion yn synhwyrol, gan gynnwys yr hyn y mae'r cyfrifiannell yn ei arddangos
- defnyddio data i ddod i gasgliadau, a sylweddoli y gall rhai casgliadau fod yn gamarweiniol



### Rwyn gallu (defnyddio sgiliau rhifedd)...

- darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 10 000
- cymharu ac amcangyfrif gyda rhifau hyd at 1 000
- defnyddio ystod o strategaethau meddwl i alw tabl lluosi 2, 3, 4, 5, 6 a 10 i gof a'u defnyddio i ddatrys problemau rhannu
- lluosi a rhannu rhifau â 10 a 100
- haneru rhifau 3 digid yng nghyd-destun rhif, arian a mesuriadau
- canfod symiau ffracsiynol drwy ddefnyddio ffeithiau hysbys am dablau, e.e. 1/6 o 30cm
- adnabod mai amryw o rannau sy'n creu rhif cyfan yw ffracsiynau, e.e. 2/3, 3/10
- canfod gwahaniaethau o fewn 1 000
- adio rhif 2 ddigid at, neu dynnu rhif 2 ddigid o, rif 3 digid drwy ddefnyddio dull ysgrifenedig priodol
- lluosi a rhannu rhifau 2 ddigid â rhif 1 digid
- gwirio atebion drwy ddefnyddio gweithrediadau gwrthdro
- amcangyfrif drwy dalgrynnu i'r 10 neu'r 100 agosaf
- defnyddio arian i dalu am eitemau hyd at £10 a chyfrifo'r newid
- rhoi eitemau yn eu trefn a'u cymharu hyd at £100
- adio a thynnu rhifau degol yng nghyd-destun arian (cyfanswm llai na £10)





### Rwyn gallu (defnyddio sgiliau mesur)...

- mesur ar bren mesur i'r mm agosaf a chofnodi drwy ddefnyddio cymysgedd o unedau, e.e. 1cm 3mm
- defnyddio clorian i bwyso gwrthrychau i'r 5g, 10g, 25g neu'r 100g agosaf (ymraniadau wedi'u marcio)
- mesur cynhwysedd i'r 50ml neu'r 100ml agosaf
- trosi unedau o hyd metrig yn unedau llai, e.e. cm yn mm, m yn cm, km yn m
- dweud faint o'r gloch yw hi i'r funud agosaf ar glociau analog
- darllen oriau a munudau ar gloc digidol 24-awr
- defnyddio stopwatsis i amseru a rhoi digwyddiadau yn eu trefn mewn eiliadau
- defnyddio calendrau i gynllunio digwyddiadau
- nodi darlleniadau tymheredd drwy ddefnyddio thermomedrau wedi'u labelu'n syml a dehongli darlleniadau uwch ac is na 0°C



### Rwyn gallu (defnyddio sgiliau data)...

- cyflwyno data drwy ddefnyddio:
  - rhestrau syml, siartiau cyfrif, tablau a diagramau
  - graffiau bar a graffiau bar llinell wedi'u labelu fesul 2, 5 a 10
  - pictogramau lle bydd un uned yn cynrychioli mwy nag un gwrthrych drwy ddefnyddio allwedd syml
  - diagramau Venn a Carroll
- echdynnu a dehongli gwybodaeth o siartiau, amserlenni, diagramau a graffiau syml.

